Adolygiad o gyfres arholiadau haf 2017

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Paratoi ar gyfer y gyfres 5
Cynnal y gyfres. 9
Gosod safonau, y broses ddyfarnu a chanlyniadau 15
Ar ôl y canlyniadau 18
Holiaduron Cymwysterau Cymru 20
Casgliad 22

Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw'r corff annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Un o'n prif weithgareddau yw goruchwylio'r gwaith o ddyfarnu cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Er bod rhai arholiadau'n cael eu sefyll ym mis Tachwedd a mis Ionawr bob blwyddyn, cyfres yr haf yw'r brif sesiwn arholi. Mae ei llwyddiant i'w briodoli i ddarpariaeth effeithiol y cyrff dyfarnu sy'n cael eu goruchwylio gan y rheoleiddwyr: ni yng Nghymru, Ofqual yn Lloegr a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon.

Cyflwynwyd cyfanswm o 838,419 o sgriptiau arholiad (papurau arholiadau a farciwyd) yng Nghymru yn ystod cyfres haf 2017. Roedd 80 y cant o'r cyfanswm hwn yn sgriptiau TGAU (671,129) ac 20 y cant ohono'n sgriptiau Safon UG (95,996) a Safon Uwch (71,294). Cafodd 62 y cant o'r sgriptiau eu marcio'n electronig. Ar y cyfan, dyfarnwyd mwy na 400,000 (418,125) o dystysgrifau yng Nghymru ar gyfer cyfres haf 2017[1].

Yn ystod haf 2017, dyfarnwyd cymwysterau TGAU Saesneg Iaith, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg newydd am y tro cyntaf. Hwn oedd yr ail dro i'r cymwysterau TGAU Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd newydd gael eu dyfarnu (cawsant eu dyfarnu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2016). Cafodd unedau cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth newydd eu dyfarnu am y tro cyntaf hefyd; cymwysterau TGAU modiwlaidd yw'r rhain, felly dim ond y canlyniadau lefel uned a gafodd eu rhyddhau yn 2017. Ni fydd y cymwysterau llawn yn cael eu dyfarnu tan haf 2018.

Cafodd cymwysterau Safon Uwch newydd eu dyfarnu am y tro cyntaf yn y 14 pwnc a addysgwyd o fis Medi 2015[2]. Cafodd cymwysterau Safon UG newydd eu dyfarnu yn y naw pwnc a addysgwyd o fis Medi 2016[3]. Bydd cymwysterau Safon UG a Safon Uwch mewn pynciau nad ydynt wedi cael eu diwygio yn parhau i gael eu dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon nes iddynt gael eu disodli.

Haf 2017 oedd y tro cyntaf i raglenni Uwch a Chyfnod Allweddol 4 newydd Bagloriaeth Cymru gael eu dyfarnu hefyd, a'r ail dro i'r Fagloriaeth Cymru ôl-16 newydd gael ei ddyfarnu ar lefel Genedlaethol a Sylfaen.

[1] https://www.gov.uk/government/statistics/entries-and-late-entries-for-gcse-and-a-level-2016-to-2017-academic-year
[2] Celf a Dylunio, Bioleg, Astudiaethau Busnes, Cemeg, Cyfrifiadura, Economeg, Saesneg Iaith, Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Ffiseg, Seicoleg, Cymdeithaseg a Chymraeg Iaith Gyntaf.
[3] Drama, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Crefyddol, Sbaeneg a Chymraeg Ail Iaith.

Yng Nghymru, dim ond CBAC sy'n cynnig cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch diwygiedig, a hwn hefyd yw'r corff dyfarnu sy'n darparu Bagloriaeth Cymru. Caiff cymwysterau mewn pynciau nad ydynt wedi cael eu diwygio eto eu dyfarnu gan AQA, OCR, Pearson a CBAC. Rydym yn rheoleiddio'r cymwysterau anniwygiedig a ddyfernir yn y tair gwlad, ochr yn ochr â'n cyd-reoleiddwyr, Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gyfres arholiadau haf 2017; ein dull o oruchwylio'r ddarpariaeth, gosod safonau a dyfarnu asesiadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol a gafodd eu sefyll gan ddysgwyr yng Nghymru.

Ein dull rheoleiddio

CBAC yw'r corff dyfarnu sy'n cynnig y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru, felly roedd ein gweithgareddau monitro yn canolbwyntio ar y corff hwnnw.

Gwnaethom gydweithio'n agos a goruchwylio CBAC wrth iddynt baratoi ar gyfer cyfres yr haf a'r cyfnod dyfarnu. Gwnaethom adolygu ei ddull o ymdrin â chyfres yr haf ac, yn benodol, y ffordd y mae'n nodi ac yn rheoli risgiau i'r gwaith o gynnal y gyfres yn ddiogel.

Gyda'n cyd-reoleiddwyr, Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu, gwnaethom ymgysylltu â'r holl fyrddau arholi sy'n cynnig cymwysterau TGAU a Safon Uwch, yn ogystal â'r corff sy'n eu cynrychioli, sef y Cyd-bwyllgor Cymwysterau. Drwy'r gwaith hwn, gwnaethom nodi risgiau a materion, cyfnewid gwybodaeth a chael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

Fel y corff annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru, rydym yn ateb yn uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cydnabod bod canlyniadau arholiadau o ddiddordeb i Weinidogion Cymru. Felly, gwnaethom lunio canllawiau gweithio clir ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd yn ystod y cyfnod dyfarnu a rhyddhau canlyniadau; gan gynnwys rhannu ein cyhoeddiadau yn gynnar, fel rheol ddiwrnod neu ddau cyn eu cyhoeddi.

Paratoi ar gyfer y gyfres

Cydweithio

Nes iddynt gael eu disodli, mae cymwysterau mewn pynciau nad ydynt wedi'u diwygio eto yn parhau i gael eu dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn rheoleiddio'r cymwysterau anniwygiedig a ddyfernir yn y tair gwlad, ochr yn ochr ag Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu.

Gwnaethom anfon llythyr i'r cyrff dyfarnu ym mis Mehefin er mwyn nodi ein disgwyliadau ar gyfer yr haf. Roedd y llythyr hwn yn cyfeirio at ohebiaeth debyg a anfonwyd gan Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu. Gwnaethom lunio datganiad a ffeithlun ar y cyd er mwyn esbonio beth oedd yn debyg ac yn wahanol rhwng y cymwysterau a gynigir ym mhob gwlad[4].

Cyfarfu Grŵp Rhannu Gwybodaeth Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru sawl gwaith ym mis Mehefin, mis Gorffennaf a mis Awst er mwyn trafod ein trefniadau ar gyfer goruchwylio'r broses ddyfarnu. Roedd y grŵp hwn yn fodd i roi gwybod i swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru am unrhyw risgiau y dylent fod yn ymwybodol ohonynt yn ein barn ni, gan gynnwys materion neu ddigwyddiadau pwysig.

Cofrestriadau

Bob blwyddyn ym mis Mai, mae Ofqual yn cyhoeddi datganiad ystadegol sy'n nodi nifer dros dro y cofrestriadau ar gyfer arholiadau i'w sefyll yn hwyrach yn yr haf[5]. Mae'r datganiad yn cynnwys tablau data ar wahân ar gyfer cofrestriadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r tablau yn nodi nifer dros dro y cofrestriadau a gofnodwyd gan gyrff dyfarnu ar gyfer yr arholiadau TGAU, tystysgrifau Lefel 1/2, Safon UG a Safon Uwch i'w sefyll rhwng mis Mai a mis Mehefin 2017. Mae'r ffigurau hyn yn ddangosydd defnyddiol o faterion posibl a all ddatblygu oherwydd amrywiadau yn nifer y cofrestriadau o flwyddyn i flwyddyn.

[4] http://qualificationswales.org/publications/three-country-qualifications-reform-guide-2017/?lang=cy
[5] https://www.gov.uk/government/statistics/summer-2017-exam-entries-gcses-level-1-2-certificates-as-and-a-levels-in-england

Cofrestriadau ar gyfer arholiadau Safon UG a Safon Uwch

Yng Nghymru, gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau Safon Uwch 6 y cant i 35,530, a gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau Safon UG 7 y cant i 48,970.

	2014	2015	2016	2017
Cyfanswm cofrestriadau Safon Uwch	37,560	38,480	37,640	35,530

	2014	2015	2016	2017
Cyfanswm cofrestriadau UG	54,690	57,030	52,620	48,970

Gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau mewn pynciau Safon Uwch[6] ac UG[7] diwygiedig fwy neu lai'n unol â nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau Safon Uwch a Safon UG yn gyffredinol.

Cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU

Rhwng 2014 a 2016, gostyngodd nifer dros dro y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU yn ystod yr haf yn raddol, ond yn 2017 bu cynnydd o 10 y cant i 334,100.

	2014	2015	2016	2017
Cyfanswm cofrestriadau TGAU	317,980	309,190	303,620	334,100

Roedd y cynnydd yn 2017 yn gysylltiedig â dau ffactor:

i) cyflwyno dau gymhwyster diwygiedig, sef TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd, yn lle'r hen gymhwyster TGAU Mathemateg;
ii) cynnydd yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 (neu iau).

O ganlyniad i gyflwyno dau gymhwyster Mathemateg, cynyddodd nifer gyffredinol y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU Mathemateg 136 y cant i 75,400 yn 2017. Cynyddodd nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 (neu iau) 41 y cant i 63,310 rhwng 2016 a 2017. Cyfrannodd y ffactorau hyn at y cynnydd o fwy na 50 y cant yn nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau mewn pynciau diwygiedig yn 2017.

[6] Celf a Dylunio, Bioleg, Astudiaethau Busnes, Cemeg, Cyfrifiadura, Economeg, Saesneg Iaith, Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Ffiseg, Seicoleg, Cymdeithaseg a Chymraeg Iaith Gyntaf.
[7] Drama, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Crefyddol, Sbaeneg a Chymraeg Ail Iaith.

Gwnaethom gyhoeddi ffeithluniau yn tynnu sylw at y prif themâu o'r data ar gofrestriadau; mae'r rhain ar gael ar ein gwefan[8].

Cyfathrebu â rhanddeiliaid

Gwnaethom lunio nifer o gyhoeddiadau er mwyn helpu rhanddeiliaid i ddeall y newidiadau a wnaed i gymwysterau yn ystod y broses ddiwygio a'r effaith bosibl ar ddeilliannau dysgwyr.

Cyn cyfres arholiadau'r haf, gwnaethom lansio ymgyrch wybodaeth[9] er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cymwysterau TGAU newydd sy'n cael eu dyfarnu yng Nghymru am y tro cyntaf eleni. Gan fod newidiadau gwahanol yn cael eu gwneud i gymwysterau TGAU yn Lloegr (sy'n cynnwys graddfa graddau newydd), roeddem am sicrhau bod myfyrwyr a rhieni yng Nghymru yn deall y newidiadau i gymwysterau TGAU yng Nghymru a sut maent yn cymharu â newidiadau yn Lloegr.

Cyn gynted ag y daeth yr arholiadau i ben, gwnaethom ysgrifennu at bob ysgol a choleg yng Nghymru yn nodi ein dull o reoleiddio'r broses dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn[10]. Cadarnhaodd ein llythyr hefyd y newidiadau i'r gwasanaethau a gynigir gan fyrddau arholi ar ôl rhyddhau'r canlyniadau.

Yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, gwnaethom gyhoeddi naw erthygl ffocws yn esbonio'r newidiadau i'r cymwysterau TGAU Saesneg, Mathemateg a Chymraeg newydd, ac ar gyfer Bagloriaeth Cymru newydd. Esboniodd yr erthyglau hefyd sut mae agweddau gwahanol ar yr arholiad a'r broses ddyfarnu yn gweithio[11]. Ein nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r ffordd rydym yn gweithio gyda byrddau arholi er mwyn sicrhau tegwch i fyfyrwyr ar adeg pan fo cymwysterau'n newid.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi nifer o erthyglau blog a briffio'r wasg a'r cyfryngau er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y canlyniadau. Yn ystod y cyfnod cyn i'r canlyniadau TGAU a Safon Uwch gael eu rhyddhau, gwnaethom gynnal cyfres o sesiynau briffio i randdeiliaid. Canolbwyntiodd y rhain ar y prif bethau i'w cofio wrth ddehongli canlyniadau eleni, gan gynnwys y ffordd y mae dyfarnu'n gweithio, newidiadau i gymwysterau a newidiadau i nifer y myfyrwyr, a'r math o fyfyrwyr, sy'n sefyll eu harholiadau. Ar ddiwrnod y canlyniadau, roedd gennym dudalen we benodol a oedd yn rhoi arweiniad i rieni a myfyrwyr ar ôl iddynt gael eu canlyniadau[12].

[8] http://qualificationswales.org/exams/summer-2017/entry-data-2017/?lang=cy&
[9] http://qualificationswales.org/qualifications/gcses/astar-g-resources/?lang=cy&
[10] http://qualificationswales.org/exams/summer-2017/letter-to-schools/?lang=cy&
[11] http://qualificationswales.org/exams/summer-2017/spotlight-articles/?lang=cy&
[12] http://qualificationswales.org/exams/summer-2017/you-ve-received-your-results-what-next/?lang=cy&

Cynnal y gyfres

Trefniadau mynediad a cheisiadau i roi ystyriaeth arbennig

Mae byrddau arholi yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anableddau[13] a dysgwyr sydd dan anfantais adeg yr arholiad (er enghraifft, oherwydd anaf neu salwch). Gelwir yr addasiadau hyn yn 'drefniadau mynediad'. Cytunir ar drefniadau mynediad cyn i'r arholiad gael ei sefyll, ac maent yn cynnwys darparu papur wedi'i addasu (megis papur â maint ffont mwy) a rhoi amser ychwanegol i gwblhau'r arholiad.

Os nad yw dysgwr wedi sefyll arholiad oherwydd salwch, anaf neu brofedigaeth, neu os yw salwch, anaf neu brofedigaeth wedi effeithio ar ei berfformiad mewn arholiad, gall yr ysgol neu'r coleg ofyn am ystyriaeth arbennig ar ei ran. Bydd y bwrdd arholi, lle y bo'n briodol, yn amcangyfrif marc ar gyfer y dysgwr neu'n addasu'r marc a roddwyd iddo.

Mae Ofqual yn cyhoeddi dau ddatganiad ystadegol ar ôl cyfres arholiadau'r haf. Mae'r rhain yn adrodd ar drefniadau mynediad a cheisiadau i roi ystyriaeth arbennig ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch a safwyd yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/17[14]. Mae'r datganiadau yn cynnwys tablau data ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Trefniadau mynediad

Cynyddodd nifer y trefniadau mynediad a gymeradwywyd yng Nghymru am y drydedd flwyddyn yn olynol, a hynny 9 y cant i 21,120.

Unwaith eto, rhoi 25 y cant o amser ychwanegol yw'r trefniant mynediad a gymeradwywyd amlaf, sef 63 y cant o gyfanswm Cymru. Cynyddodd nifer y ceisiadau am y trefniant hwn a gymeradwywyd 11 y cant i 13,265 yn 2017.

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Cyfanswm nifer y trefniadau a gymeradwywyd	17,450	18,005	19,370	21,120
Trefniadau 25% o amser ychwanegol a gymeradwywyd	10,280	10,700	11,945	13,265

[13] Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd.
[14] https://www.gov.uk/government/statistics/access-arrangements-for-gcse-and-a-level-2016-to-2017-academic-year a https://www.gov.uk/government/statistics/special-consideration-in-gcse-and-a-level-summer-2017-exam-series

Ceisiadau i roi ystyriaeth arbennig

Cyflwynwyd 41,110 o geisiadau i roi ystyriaeth arbennig ar gyfer cyfres arholiadau haf 2017 yng Nghymru, sef cynnydd o 25 y cant o gymharu â chyfres arholiadau'r haf diwethaf. Mae hyn yng nghyd-destun cynnydd o 4 y cant yn nifer y sgriptiau ac asesiadau nad oeddent wedi'u hamserlennu.

Roedd nifer y ceisiadau i roi ystyriaeth arbennig a gymeradwywyd (95 y cant) a chyfran cyfanswm y sgriptiau a'r asesiadau nad oeddent wedi'u hamserlennu y rhoddwyd ystyriaeth arbennig iddynt (3.4 y cant) yn dal i fod yn gymaradwy â ffigurau cyfatebol ar gyfer cyfres haf 2014-2016.

	2014	2015	2016	2017
Nifer y ceisiadau ar gyfer ystyriaeth arbennig	21,860	38,755	32,940	41,110
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd	20,560	36,710	31,625	39,060
Canran y ceisisadau a gymerwdwywyd	94.1%	94.7%	96.0%	95.0%
Ceisiadau a gymerwdwywyd fel canran o gyfanswm sgriptiau ac asesiadau nd oeddent wedi'u hamserlennu	2.6%	4.6%	2.8%	3.4%

Rheoli digwyddiadau

Rhaid i fyrddau arholi roi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiad sy'n debygol o gael effaith andwyol ar fyfyrwyr; er enghraifft, gwallau mewn deunyddiau asesu neu dorri diogelwch papur arholiad. Pan gawn wybod am ddigwyddiad, rydym yn cadarnhau bod y bwrdd arholi'n cymryd camau priodol i leihau'r effaith ar fyfyrwyr ac atal y sefyllfa rhag digwydd eto. Gall digwyddiadau ddechrau y tu allan i Gymru, ond gallant gael effaith ar fyfyrwyr yng Nghymru sy'n sefyll arholiad ar gyfer yr un cymhwyster.

Cyfrifoldeb y bwrdd arholi yw rheoli'r digwyddiad, ond mae'n rhaid iddo hefyd roi gwybod i bob rheoleiddiwr perthnasol cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol o'r digwyddiad a rhoi gwybod pa gamau y mae'n eu cymryd i'w reoli. Gwnaethom fonitro'n agos y ffordd y gwnaeth byrddau arholi reoli pob digwyddiad y rhoddwyd gwybod amdano, ac roeddem yn fodlon bod y camau gweithredu priodol wedi'u cymryd.

Mae camau gweithredu y gall bwrdd arholi eu cymryd i reoli digwyddiad yn cynnwys: ymchwilio i raddau ac effaith y digwyddiad; monitro'r cyfryngau cymdeithasol; a dadansoddi data marcio yn ystadegol er mwyn gweld a gafwyd mantais. Pan fo digwyddiad wedi effeithio ar fyfyrwyr, rydym yn sicrhau bod y bwrdd arholi wedi

cymryd camau priodol i leihau effaith y digwyddiad a lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwyddiad eto.

Bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod cyfres arholiadau haf 2017 o gymharu â haf 2016. Roedd hyn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith ein bod wedi gofyn i fyrddau arholi roi gwybod am bob digwyddiad – hyd yn oed mân ddigwyddiadau na fyddent o bosibl wedi rhoi gwybod amdanynt yn y gyfres ddiwethaf. Mae hefyd yn adlewyrchu'r nifer gynyddol o arholiadau a safwyd yr haf hwn, gan fod arholiadau diwygiedig ac etifeddol ar gael mewn sawl pwnc.

Digwyddiadau haf 2017

O ran cyfres yr haf, cawsom wybod am 123 o ddigwyddiadau mewn perthynas â chymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt gan gyrff dyfarnu:

Bwrdd arholi	Digwyddiadau
AQA	35
OCR	51
Pearson	11
CBAC	26
Cyfanswm	**123**

Rydym yn dosbarthu'r mathau o ddigwyddiadau fel a ganlyn.

- Marcio – materion ynghylch y broses o farcio sgriptiau.
- Gwallau mewn prosesau ac ar systemau – materion sy'n ymwneud â phrosesau neu systemau, gan gynnwys prosesau neu systemau electronig a ddefnyddir gan y corff dyfarnu neu ganolfan arholi.
- Gwallau mewn papurau cwestiynau – materion sy'n ymwneud ag unrhyw ddeunydd a ddefnyddir at ddibenion asesu, neu'r cynllun marcio.
- Torri diogelwch – unrhyw ddigwyddiad lle y peryglir deunydd sensitif.
- Arall – digwyddiadau nad ydynt yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau uchod.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad, yn ôl categori, o'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt gan fyrddau arholi:

Digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod cyfres yr haf yn ôl math	
Math o ddigwyddiad	**Nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt**
Marcio	3
Materion o ran prosesau a systemau	8
Gwallau mewn papurau cwestiynau	37
Torri diogelwch	73
Arall	2

Rydym wedi manylu'n fwy ar y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod yr haf diwethaf isod.

Marcio

Mae byrddau arholi yn rhoi gwybod i ni os oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â chynnydd y gwaith marcio yn ystod cyfres yr haf. O ystyried y cynnydd yn nifer yr arholiadau a gynigir gan CBAC eleni, gwnaethom ofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd y gwaith marcio yn rheolaidd ac ar adegau y cytunwyd arnynt drwy gydol cyfres yr haf. Roedd y wybodaeth hon yn ein sicrhau bod y gwaith marcio yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen ac y byddai'n cael ei gwblhau mewn pryd o ganlyniad i hynny. Hefyd, roedd yn rhoi gwybodaeth i ni ar lefel pwnc am unrhyw gymwysterau a oedd 'mewn perygl' naill ai oherwydd problemau o ran recriwtio arholwyr neu broblemau o ran marcio.

Yr haf hwn, rhoddodd bwrdd arholi wybod i ni deirgwaith fod oedi wrth farcio gwaith ar gyfer pum cymhwyster. Ym mhob un o'r achosion hyn, cafodd y problemau eu datrys ac ni wnaethant effeithio ar ddysgwyr.

Gwallau mewn papurau cwestiynau

Mae'r asesiadau a gaiff eu llunio gan fyrddau arholi yn destun prosesau sicrhau ansawdd mewnol wrth iddynt gael eu llunio, sy'n cymryd 18 mis ar gyfartaledd. Fodd bynnag, gall gwallau godi weithiau mewn papurau cwestiynau, mewn cyfieithiadau i'r Gymraeg ac yn ystod y broses addasu[15].

[15] Caiff asesiadau eu haddasu er mwyn i ddysgwyr allu eu defnyddio. Gall y broses addasu gynnwys defnyddio print bras neu braille a addaswyd.

Pan welir gwallau o'r fath cyn ymgymryd ag asesiad, mae'r bwrdd arholi yn anfon hysbysiad erratum i ysgolion a cholegau ac yn rhoi gwybod i ni am y digwyddiad. Os gwelir y gwall ar ôl ymgymryd â'r asesiad, mae byrddau arholi yn rhoi gwybod i ni am y digwyddiad, gan esbonio pa gamau y byddant yn eu cymryd i wneud iawn am y gwall a sicrhau nad yw'r dysgwyr dan anfantais.

Gall y camau hyn gynnwys:

- newid cynllun marcio i wneud iawn am y gwall yn y cwestiwn;
- credydu pob ymgeisydd â'r marciau os na ellir ateb cwestiwn.

Cawsom wybod am 37 o wallau mewn papurau cwestiynau yn ystod y flwyddyn. Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, lluniwyd 2,200 o bapurau cwestiynau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2017 yn unig. Mân wallau oedd y rhan fwyaf o'r gwallau mewn papurau cwestiynau y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt, ac ni wnaethant effeithio ar allu'r myfyrwyr i ateb y cwestiynau. Mewn nifer fach iawn o achosion, roedd rhai gwallau yn golygu nad oedd y myfyrwyr yn gallu ateb cwestiwn, yn ôl y disgwyl. Mewn achosion o'r fath, rydym wedi monitro'r camau a gymerwyd gan y corff dyfarnu er mwyn sicrhau nad oedd myfyrwyr dan anfantais oherwydd hynny. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad, yn ôl corff dyfarnu, o wallau mewn papurau cwestiynau:

Corff Dyfarnu	Amlder
AQA	11
OCR	12
Pearson	3
CBAC	11
Cyfanswm	**37**

Yr haf hwn, lluniwyd mwy o bapurau arholiad nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd effaith y gwaith o ddiwygio cymwysterau. Gwnaethom fonitro perfformiad cyrff dyfarnu yn ofalus, ac roeddem yn fodlon eu bod wedi ymdrin â'r digwyddiadau'n briodol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn cydweithio â CBAC i ddeall ei brosesau ac yn ymchwilio i welliannau posibl er mwyn atal y gwallau hyn.

Torri diogelwch

Mae byrddau arholi, ysgolion a cholegau yn cadw papurau arholiad yn ddiogel tan ddiwrnod yr arholiad. Weithiau, bydd diogelwch yn cael ei dorri, a byddwn yn cael gwybod am hyn ynghyd â'r camau y bydd y bwrdd arholi yn eu cymryd i liniaru'r effaith. Gall y camau hyn gynnwys:

- monitro'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn nodi i ba raddau y mae diogelwch wedi'i dorri;
- dadansoddi'n ystadegol y sgriptiau arholiadau a gwblhawyd mewn canolfannau yr effeithiwyd arnynt i weld a gafwyd unrhyw fantais annheg;
- galw'r papur arholiad sydd i'w sefyll yn ôl a llunio un newydd.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad, yn ôl corff dyfarnu, o achosion o dorri diogelwch:

Corff Dyfarnu	Amlder
AQA	22
OCR	34
Pearson	7
CBAC	10
Cyfanswm	**73**

Eleni, roedd y rhan fwyaf o achosion o dorri diogelwch (46 o 73 o achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt) wedi codi mewn ysgol neu goleg; er enghraifft, staff canolfannau yn agor y pecyn anghywir o bapurau arholiad ac, mewn rhai achosion, yn eu rhoi i'r myfyrwyr. Dim ond dau o'r achosion hyn a gododd yng Nghymru, ac ni chafodd y naill achos na'r llall effaith andwyol ar ddysgwyr yng Nghymru. Bydd ein Tîm Cymorth i Ganolfannau yn parhau i gydweithio ag ysgolion a cholegau cyn cyfres haf 2018.

Yr ail fath mwyaf cyffredin o dorri diogelwch (19 o 73 o achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt) oedd datgelu deunydd arholi cyfrinachol yn answyddogol a'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Gan fod y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon digidol yn datblygu a bod mwy a mwy o bobl yn eu defnyddio, mae'n anoddach i ysgolion, colegau a chyrff dyfarnu atal achosion o dorri cyfrinachedd deunydd arholiadau. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae byrddau arholi yn delio â'r math hwn o achos.

Camymddwyn

Mae'n ofynnol i fyrddau arholi gymryd pob cam rhesymol i atal camymddwyn. Pan geir honiad o gamymddwyn, mae'n ofynnol i fyrddau arholi ymchwilio iddo. Os bydd achosion o gamymddwyn wedi codi, mae'n ofynnol i fyrddau arholi weithredu. Os gallai achos o gamymddwyn effeithio ar safonau neu hyder y cyhoedd, mae'n rhaid i fwrdd arholi roi gwybod i ni amdano yn ystod y gyfres arholiadau. Fel arall, rhoddir gwybod i ni am bob achos o'r fath ar ddiwedd y gyfres.

Gwnaethom fonitro'r camau a gymerwyd gan fyrddau arholi a roddodd wybod am achosion honedig o gamymddwyn, ac roeddem yn fodlon nad oedd myfyrwyr yng Nghymru dan fantais nac anfantais.

Mae Ofqual yn cyhoeddi datganiad ystadegol ar ôl y gyfres arholiadau sy'n nodi nifer yr achosion o gamymddwyn y mae'r byrddau arholi yn ymchwilio iddynt mewn perthynas â chymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/17[16]. Mae'r datganiad yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o gamymddwyn y rhoddwyd gwybod amdano gan fyrddau arholi ac unrhyw gosbau a roddwyd ganddynt. Caiff tablau data ar wahân eu cyhoeddi ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rhoddwyd 180 o gosbau ar gyfer achosion o gamymddwyn gan fyfyrwyr am gamymddwyn yn ystod cyfres arholiadau haf 2017, sef cynnydd o 9 y cant o gymharu â chyfres arholiadau haf 2016. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y cynnydd yn nifer y cofrestriadau, nid oedd canran y cofrestriadau y rhoddwyd cosb ar gyfer camymddwyn gan fyfyrwyr mewn perthynas â hwy wedi newid o gwbl o gymharu â 2016, sef 0.015 y cant.

Y math mwyaf cyffredin o gamymddwyn y rhoddwyd gwybod amdano yn 2017 oedd defnyddio deunyddiau anawdurdodedig yn yr ystafell arholi, sef ffôn symudol neu ddyfais gyfathrebu electronig arall yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd ffonau symudol yn cyfrif am 44 y cant o'r holl gosbau a roddwyd ar fyfyrwyr yn ystod cyfres arholiadau haf 2017.

Yn ystod cyfres arholiadau haf 2017, rhoddwyd cyfanswm o 15 o gosbau ar staff ysgol neu staff coleg, sy'n cynrychioli 0.06 y cant o'r holl athrawon cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru[17].

Yn ystod cyfres haf 2017, cawsom wybod am 17 o achosion o gamymddwyn drwy'r broses rhoi gwybod am ddigwyddiad; cododd un o'r achosion hyn yng Nghymru. Gwnaethom fonitro'r ffordd y deliodd y bwrdd arholi â'r achosion hyn.

[16] https://www.gov.uk/government/statistics/announcements/malpractice-for-gcse-and-a-level-summer-2017-exam-series
[17] StatsCymru, Athrawon cyfwerth ag amser llawn yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a chategori https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/School-Staff/fteteachers-by-localauthorityregion-category

Gosod safonau, y broses ddyfarnu a chanlyniadau

Gosod safonau cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch

Cafodd sawl cymhwyster newydd, a gynlluniwyd yn benodol i ddysgwyr yng Nghymru, eu dyfarnu am y tro cyntaf yn ystod haf 2017. Cafodd cymwysterau newydd eraill eu dyfarnu am yr ail neu'r trydydd tro yn unig. Gwnaethom graffu'n fanwl ar broses CBAC o bennu ffiniau graddau priodol ar gyfer y cymwysterau hyn drwy gydol y cyfnod dyfarnu.

Gan mai hon oedd y flwyddyn gyntaf i lawer o'r cymwysterau newydd gael eu dyfarnu, a dim ond yr ail flwyddyn i gymwysterau eraill, gwnaethom ofyn i CBAC ddefnyddio'r dull 'canlyniadau cymaradwy' sefydledig i sicrhau nad oedd myfyrwyr dan fantais nac anfantais. Gall y dull hwn wneud iawn mewn sefyllfaoedd lle gall perfformiad ostwng ar ôl cyflwyno cymwysterau newydd. Dyma'r dull a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yr haf diwethaf wrth ddyfarnu'r cymwysterau Safon UG newydd.

Yn ogystal â mabwysiadu'r dull 'canlyniadau cymaradwy', fel rhan o'r broses ddyfarnu, gwnaethom ofyn i CBAC wneud rhagor o waith dadansoddi ystadegol o ran perfformiad pob asesiad ac adolygu gwaith ymgeiswyr yn fwy helaeth a dwys ar ffiniau gradd allweddol.

Mae'r dull 'canlyniadau cymaradwy' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cohort cyfan ac yn sicrhau y cyfyngir ar amrywioldeb yn y canlyniadau yn genedlaethol. Fodd bynnag, pan fydd cymhwyster yn newid, gall fod mwy o amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn nag arfer yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol am eu bod, o bosibl, wedi defnyddio dulliau gwahanol o gyflwyno'r cymhwyster newydd. Gwelwyd hyn i ryw raddau yr haf hwn.

Mae'r broses gosod safonau ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn cael ei defnyddio pan gaiff cymhwyster ei ddyfarnu a'i fonitro'n agos gennym ni. Bob blwyddyn, caiff dadansoddiad ystadegol o gyrhaeddiad blaenorol cohort y flwyddyn honno ei gymharu â pherfformiad cohortau blaenorol. Defnyddir y dadansoddiad hwn i ragfynegi'r canlyniadau eleni. Disgwylir i fyrddau arholi ddyfarnu'n unol â'r rhagfynegiadau hyn (o fewn goddefiant cofnodi), neu roi rheswm dros beidio â gwneud hynny. Mae'r broses hon yn cael ei hamlinellu yn ein dogfen cyfnewid data[18]. Fel y rheoleiddiwr, rydym yn adolygu canlyniadau dyfarniadau a, phan fo dyfarniad y

[18] http://qualificationswales.org/media/2585/data-exchange-procedures-wales-summer-2017.pdf

tu allan i'r goddefiant cofnodi, rydym yn adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y bwrdd arholi er mwyn penderfynu a ellir cyfiawnhau'r dyfarniad.

Wrth adolygu'r dystiolaeth, rydym yn cadw'r tair egwyddor ganlynol mewn cof:

1. tegwch i ddysgwyr;
2. hyder y cyhoedd yn y canlyniadau a roddir;
3. cynnal safonau.

Mae cymwysterau nad ydynt wedi'u diwygio eto yn parhau i gael eu dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gwnaethom weithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr cymwysterau yn y gwledydd hynny (Ofqual yn Lloegr a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon) fel rhan o ddull rheoleiddio ar sail tair gwlad presennol. Gwnaethom gydweithio â hwy er mwyn rheoli'r risgiau i'r cymwysterau tair gwlad sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- newidiadau i batrymau cofrestru sy'n tueddu i ddigwydd ar ddiwedd oes manyleb;
- yr heriau sy'n codi drwy gyd-reoleiddio cymwysterau ar draws y tair gwlad ar adeg pan fo gwahaniaethau gweithredol a pholisi.

Monitro

Gwnaethom gynnal rhaglen gynhwysfawr o weithgarwch monitro er mwyn goruchwylio pob cam o'r broses asesu a dyfarnu. Ffocws ein monitro oedd cydymffurfiaeth CBAC â'n rheoliadau a'n gofynion. Gwnaethom lunio adroddiad manwl a rhoi adborth i CBAC ar ôl pob gweithgaredd monitro. Gwnaethom ganolbwyntio ar gymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch diwygiedig, ynghyd â chymwysterau TGAU etifeddol yn y gyfres gwyddoniaeth a'r cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau sy'n cyfrannu at Fagloriaeth Cymru.

Aethom i gyfarfodydd Pwyllgorau Gwerthuso Papurau Cwestiynau, cyfarfodydd safoni arholwyr a chyfarfodydd pwyllgorau dyfarnu ar gyfer amrywiaeth o bynciau TGAU a Safon Uwch newydd. Ar gyfer cyfres arholiadau'r haf, aethom i 26 o gyfarfodydd safoni a naw cyfarfod dyfarnu ar gyfer pynciau TGAU. Ar gyfer cymwysterau Safon UG a Safon Uwch, aethom i 32 o gyfarfodydd safoni ac 20 o gyfarfodydd dyfarnu. Gwnaethom hefyd fonitro'r broses o gymedroli Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, gan fynd i bob un o'r chwe chyfarfod safoni a phob un o'r tri chyfarfod dyfarnu.

Roedd yr holl gyfarfodydd yr aethom iddynt yn cydymffurfio â'n gofynion.

Rydym wedi defnyddio canfyddiadau ein gwaith monitro i lywio diweddariadau i gynllun monitro 2017-18 ac i wella ein prosesau rheoleiddio ar gyfer cyfresi arholiadau yn y dyfodol. Bydd rhai themâu cyffredinol yn cael eu hystyried yn ystod cyfarfodydd priodol â CBAC.

Canlyniadau

UG a Safon Uwch

Mae'r canlyniadau Safon Uwch cyffredinol ar gyfer Cymru wedi gwella. Fodd bynnag, o ystyried y newid yn nifer y cofrestriadau, mae'n bwysig edrych ar nifer y graddau a ddyfarnwyd i gyd yn ogystal â'r canrannau. Mae perfformiad wedi gwella mewn rhai pynciau ac wedi dirywio mewn eraill. Mae hyn i'w ddisgwyl, a gellir ei ystyried yn amrywiad arferol.

TGAU

Mae'r canlyniadau cyffredinol yng Nghymru ar gyfer arholiadau a safwyd yn ystod haf 2017 wedi gostwng. Un ffactor sylweddol yw'r newid mewn patrymau cofrestru, yn benodol cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 a nifer sylweddol o fyfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cymwysterau mathemateg ym mis Tachwedd.

Ar y diwrnodau pan gafodd y canlyniadau TGAU a Safon UG / Safon Uwch eu rhyddhau, gwnaethom gyhoeddi trosolwg o'r canlyniadau ar ein gwefan[19], ynghyd â ffeithluniau yn tynnu sylw at y prif themâu yn y data ar gofrestriadau[20].

[19] http://qualificationswales.org/media/2695/2017-a-as-level-overview-cym.pdf
http://qualificationswales.org/media/2711/overview-of-results-for-gcse-and-level-1-cym.pdf
[20] http://qualificationswales.org/exams/summer-2017/entry-data-2017/?lang=cy&

Ar ôl y canlyniadau

Rhoi'r canlyniadau anghywir

Fel rhan o'r broses rhoi gwybod am ddigwyddiad, rhaid i fyrddau arholi roi gwybod i ni am achosion o roi'r canlyniadau anghywir. Gall y gwallau hyn godi oherwydd problemau gyda system TG y bwrdd arholi neu gallant fod yn wallau gweinyddol. Cawsom wybod am dri digwyddiad yn ystod cyfres yr haf, a gwnaethpwyd iawn am bob un ohonynt drwy roi'r canlyniadau cywir i'r ymgeiswyr yr effeithiwyd arnynt. Gofynnwyd i fyrddau arholi hefyd roi gwybod i ni pa gamau a gaiff eu cymryd i atal digwyddiadau o'r math yn y dyfodol, lle bo'n bosibl.

Adolygiadau o waith marcio a chymedroli

Mae Ofqual yn cyhoeddi datganiad ystadegol ar ôl y gyfres arholiadau ar adolygiadau o waith marcio a chymedroli ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch[21]. Mae'r datganiad yn cynnwys tablau data ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yn ystod cyfres arholiadau haf 2017, cyflwynwyd 12,930 o geisiadau am adolygiad o waith marcio ar gyfer asesiadau TGAU yng Nghymru, o gymharu ag 8,625 y llynedd. Mae hynny'n gynnydd o 50 y cant. Er bod y cynnydd hwn i'w briodoli'n rhannol i'r cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU yr haf hwn, gall ffactorau eraill, megis dyfarnu nifer o gymwysterau diwygiedig am y tro cyntaf, fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau canolfannau i ofyn am adolygiad o waith marcio.

Cyflwynwyd 3,020 o geisiadau am adolygiad ar gyfer asesiadau Safon UG a Safon Uwch yn ystod yr un cyfnod, o gymharu â 3,605 yn 2016. Mae hynny'n ostyngiad o 16 y cant. Er bod nifer y cofrestriadau wedi gostwng, gallai ffactorau eraill, megis gofynion mynediad ar gyfer Addysg Uwch, fod yn dylanwadu ar benderfyniadau i ofyn am adolygiad ar gyfer asesiadau Safon UG a Safon Uwch.

Cafodd 2.5 y cant o'r holl raddau TGAU a TAG y rhoddwyd tystysgrif amdanynt eu herio yn ystod cyfres arholiadau haf 2017, a chafodd 0.5 y cant eu newid, sef cynnydd o 2.4 y cant a 0.4 y cant yn ôl eu trefn yn 2016.

Y graddau a heriwyd fwyaf ar gyfer cymwysterau TGAU (A*-G) oedd graddau D a B (59 y cant a 15 y cant yn ôl eu trefn). Ar gyfer Safon UG a Safon Uwch, y graddau a heriwyd fwyaf yng Nghymru oedd gradd B (32 y cant o adolygiadau) a gradd C (27 y cant o adolygiadau).

[21] https://www.gov.uk/government/statistics/reviews-of-marking-and-moderation-for-gcse-as-and-a-level-summer-2017-exam-series

Yn gyffredinol, nid arweiniodd 53 y cant o adolygiadau ar gyfer asesiadau TGAU a TAG at unrhyw newid mewn marc. Mae'n bwysig nodi nad yw newid mewn marc yn arwain at newid mewn gradd o reidrwydd.

- O ran TGAU, o'r adolygiadau y gofynnwyd amdanynt, nid arweiniodd 78 y cant at unrhyw newid mewn gradd.
- O ran Safon UG a Safon Uwch, nid arweiniodd 80 y cant o'r adolygiadau at unrhyw newid mewn gradd.

Ym mis Awst 2016, gwnaethom gyflwyno amodau newydd yn ymwneud ag adolygiadau o waith marcio a chymedroli ac apeliadau, sef *Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol A–P – Adolygiadau, Cymedroli ac Apeliadau*[22]. Rydym wedi cysoni trefniadau yng Nghymru, cymaint â phosibl, â'r newidiadau a gyflwynwyd yn Lloegr, a gwnaethom ysgrifennu at bob ysgol a choleg yn 2016 er mwyn esbonio'r newidiadau hyn[23]. Byddwn yn parhau i weithio gyda byrddau arholi er mwyn sicrhau bod ysgolion a cholegau yn deall y newidiadau hyn. Bydd ein Tîm Cymorth i Ganolfannau yn parhau i dynnu sylw canolfannau at y newidiadau. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfle i apelio yn erbyn y marc y maent wedi'i gael ar gyfer cydrannau a farciwyd gan y ganolfan cyn iddo gael ei gymedroli gan y bwrdd arholi.

[22] http://qualificationswales.org/publications/qwcc1-006_16-additional-standard-conditions-of-recognition-for-gcse-and-gce-qualifications-and-technical-requirements/?lang=cy
[23] http://qualificationswales.org/publications/letter-to-schools-and-colleges-reviews-of-marking-and-appeals/?lang=cy

Holiaduron Cymwysterau Cymru

Unwaith eto eleni, gwnaethom gyhoeddi holiadur ar-lein (Dweud Eich Dweud) ar gyfer myfyrwyr ac athrawon er mwyn ceisio eu barn ar y cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch newydd. Un o nodau'r holiadur hwn oedd sianelu safbwyntiau er mwyn ein galluogi i nodi problemau posibl ac ymateb lle bo angen.

Cawsom ymateb cadarnhaol i'r holiadur ac adborth gwerthfawr ar y croeso a gafodd yr arholiadau newydd. Roedd y wybodaeth a gasglwyd o gymorth wrth i ni oruchwylio'r broses ddyfarnu a nodi agweddau ar y cymwysterau newydd y byddwn yn eu hystyried yn fanylach wrth fonitro cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn barhaus.

Roedd yr holiadur ar-lein ar gael rhwng mis Mai a mis Gorffennaf. Roedd yr holiadur yn galluogi ymatebwyr i wneud sylwadau ar unrhyw arholiad, ond canolbwyntiodd yn benodol ar yr arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch diwygiedig. Ni ragwelwyd y byddai canlyniadau'r holiadur ar ei ben ei hun yn ddigon arwyddocaol i fod yn sail i gamau neu benderfyniadau. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr arolwg i hyrwyddo ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chasglu adborth a all fod o ddefnydd pan gaiff ei gyfuno â gwybodaeth arall.

Cwblhaodd mwy nag 800 o bobl yr holiadur; athrawon a darlithwyr oedd 51 y cant ohonynt, a myfyrwyr oedd 45 y cant ohonynt. Gwnaethom ofyn pa mor anodd oedd yr arholiadau, a oeddent wedi asesu'r fanyleb yn deg, a gafodd myfyrwyr ddigon o amser, ac am sylwadau cyffredinol ar y cymwysterau.

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar amrywiaeth o gymwysterau, ac nid oedd unrhyw fater na phwnc unigol yn elfen amlwg ynddynt. Roedd pawb yn cytuno'n gyffredinol bod y cynnwys o'r maes llafur wedi'i asesu'n briodol. O ran pa mor anodd oedd yr asesiadau ac a oedd digon o amser ar gael, roedd y farn yn amrywio, ond nid oedd unrhyw beth yn peri pryder mawr ynghylch pwnc nac arholiad penodol.

Canfyddiadau'r holiadur

Roedd yr holiadur yn cynnwys tri chwestiwn caeedig allweddol a blwch sylwadau agored. Roedd y cwestiynau yn canolbwyntio ar y canlynol: a oedd yr arholiad yn ymdrin â'r pynciau a astudiwyd/y fanyleb, pa mor anodd oedd yr arholiad a faint o amser a roddwyd i'w gwblhau. Cafodd yr atebion i'r cwestiynau eu dadansoddi ar wahân ar gyfer dysgwyr ac athrawon (gweler ffigurau 1 a 2 isod).

Ffigur 1 (ymatebion dysgwyr)







Ffigur 2 (ymatebion athrawon)







Roedd natur benagored yr holiadur a'r ffaith bod y sampl o ymatebwyr yn dewis ei hun yn golygu na fyddai dadansoddiad ystadegol pellach yn ddilys.

Gwnaethom rannu'r sylwadau ar gymwysterau penodol â CBAC er mwyn iddo eu hystyried, ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i lywio ein gwaith monitro.

Rydym wedi adolygu a gwerthuso'r holiadur, a byddwn yn trefnu ei fod ar gael eto ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 ar ôl datblygu'r cwestiynau a'r dulliau cyfathrebu i hyrwyddo ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r broses o gynnal cyfres haf 2017, gan gynnwys ein gwaith o fonitro'r cyrff dyfarnu sy'n cynnal y gyfres arholiadau. Yn y bôn, cododd ychydig o faterion a allai gael effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr yng Nghymru. Pan gododd materion, gwnaethom oruchwylio camau'r corff dyfarnu er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd camau priodol i ddiogelu dysgwyr, yn cynnal safonau ac yn rhyddhau canlyniadau cywir yn amserol. Gwnaethom fonitro'n agos y broses o osod safonau'r cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru'n unig, ac rydym yn fodlon bod y safonau wedi cael eu cario ymlaen yn briodol.

Wrth symud ymlaen, rydym yn parhau i gydweithio â CBAC i baratoi ar gyfer dyfarnu'r gyfres derfynol o gymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd am y tro cyntaf. Byddwn yn parhau â'n rhaglen fonitro sy'n canolbwyntio'n benodol ar y cymwysterau diwygiedig newydd. Bydd holiadur ar gael eto yn ystod haf 2018 er mwyn i ddysgwyr ac athrawon roi adborth ar y cymwysterau.

Rydym eisoes yn trafod y trefniadau ar gyfer cyfres haf 2018 gyda CBAC, y cyrff dyfarnu eraill a chyd-reoleiddwyr. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod haf 2017 fel sail i'n trafodaethau â chyrff dyfarnu; mae hyn yn cynnwys ymchwilio i'r mesurau y gellir eu rhoi ar waith i atal materion rhag codi a all effeithio ar y gwaith o gyflwyno a dyfarnu'r cymwysterau'n ddiogel. Fel y gwnaethom yn 2017, byddwn yn cyhoeddi ein dull o ymdrin â chyfres arholiadau haf 2018.

Ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, ac ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'n bwysig ein bod yn cydweithio â rhanddeiliaid, a bod pawb yn chwarae eu rhan i sicrhau tegwch i ddysgwyr yng Nghymru.